

Yn iaith y bobl

(Penderfyniad / ymddiried yn Nuw)

Ganed Origen tua diwedd yr ail ganrif yn Alexandria, yn yr Aifft. Bryd hynny roedd Alexandria yn ddinas bwysig yn nwyrain Môr y Canoldir, yn ail yn unig i Rufain. Erbyn heddiw mae'r Aifft yn wlad Fwslemaidd ond, yng nghyfnod Origen, roedd yn ganolfan Gristnogol o bwys.

Yn y cyfnod hwnnw roedd y Cristnogion yn byw mewn ofn. Yr Ymerawdwr, bryd hynny, oedd Lucius Septimus Severus a doedd ganddo ddim cydymdeimlad o gwbl â'r Cristnogion. Pan oedd Origen yn 17 oed carcharwyd ei dad, Leonidas. Gwylltiodd Origen yn gacwn a phenderfynodd fynd allan i'r stryd i brotestio. Meddai wrth ei fam, "Rydw i'n barod i gael fy lladd gan y Rhufeiniaid. Mae'r ffordd maen nhw'n trin pobl yn warthus." "Bydd di'n ofalus," meddai'i fam wrtho. "Fel y gwyddost mae'r milwyr Rhufeinig yma'n ddidostur." "Mi ydw i'n mynd, doed a ddelo," meddai Origen yn herfeiddiol. "Dwyt ti ddim yn mynd allan o'r tŷ," atebodd ei fam, ac aeth ati i guddio ei ddillad. Ymhen rhai dyddiau roedd Leonidas wedi'i ddienyddio.

Ar ôl marwolaeth ei dad dechreuodd Origen astudio llawysgrifau Cristnogol. Ar ôl i Ymerodraeth Rhufain benderfynu bod yn fwy caredig tuag at y Cristnogion dechreuodd Origen sôn am Iesu Grist wrth Gristnogion newydd.

Teithiodd gryn bellter i Rufain, Syria a Phalestina i bregethu a sôn am Iesu. Doedd esgob Alexandria, Demetrius, ddim yn fodlon gweld Origen yn teithio o gwmpas y wlad i sôn am Iesu Grist. Mewn cyfarfod arbennig o arweinwyr yr eglwysi Cristnogol yn y flwyddyn 220 condemniwyd Origen yn hallt ac anfonwyd ef i Gesarea, canolfan Gristnogol bwysig ar lan y môr.

Daliodd ati i ddysgu mwy a mwy am y grefydd Gristnogol. Pan oedd yn byw yn Alexandria roedd wedi dysgu'r iaith Hebraeg. Ychydig iawn o bobl, heblaw ysgolheigion Iddewig, oedd yn deall yr iaith Hebraeg. Doedd iaith yr Hen Destament ddim wedi cael ei siarad gan bobl gyffredin am flynyddoedd maith. Yng nghyfnod Iesu, ddwy ganrif yn gynharach, Aramaeg oedd iaith y bobl gyffredin.

Roedden nhw hefyd yn siarad yr iaith Roeg. Groeg oedd yr iaith fyd-eang yn yr hen fydd. Roedd yr Hen Destament wedi cael ei

gyfieithu i'r iaith Roeg ar gyfer y bobl nad oedd yn deall Hebraeg.

Astudiodd Origen yr iaith Hebraeg gan ei fod yn awyddus i'r Cristnogion gael gwybodaeth o'r Hen Destament yn yr iaith wreiddiol. Daeth i benderfyniad y byddai'n mynd ati i roi cymaint o wybodaeth â phosibl i'w gyd-Gristnogion am Hebraeg yr Hen Destament. Canlyniad hyn oedd yr *Hexopla*, oedd wedi ei ddechrau yn Alexandria a'i orffen yng Nghesarea. Yn y gyfrol hon roedd chwe chyfieithiad o'r Hen Destament.

Ond does yr un copi o'r *Hexopla* wedi goroesi. Mae'n bur debyg mai dim ond un copi oedd yn bodoli. Yng nghyfnod Origen roedd gwaith ysgrifennu llyfrau yn waith llafurus iawn a byddai sgwennu mwy nag un copi wedi bod yn waith oes. Ond er mai un copi a wnaethpwyd roedd yn waith pwysig iawn. Cafodd copi o'r *Hexopla* le anrhydeddus yn y llyfrgell Gristnogol yng Nghesarea.

Ganrif a hanner ar ôl cwblhau'r *Hexopla* anfonwyd ysgolhaig o'r enw Sant Jerôm, ar gais y Pab, i gyfieithu'r Beibl i'r iaith Ladin. Treuliodd Jerome gryn amser yn y llyfrgell yn Alexandria yn astudio gwaith Origen. Canlyniad hyn oedd cyhoeddi fersiwn Ladin o'r Beibl, sef y Fwlgat.



Adnod: “Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo ac yn rhoi deall i'r syml.” Salm 119:130



Gweddï: “Nawr, O Dduw, boed i'th Ysbryd a roes y gair, ac a'm galwodd i i'w ddehongli, ei gymhwyso yn rymus ac yn raslon i galonnau pechaduriaid.” Amen.



Trafod:

- Ydych chi'n credu fod mam Origen wedi gwneud y peth iawn yn cuddio'i ddillad?
- Ydych chi'n credu fod gan Dduw waith arbennig ar gyfer Origen?